

## Crynodeb Ymgysylltu Llais Rhanbarth Gwent

### Arolwg Ymadael MT – Canolfan Iechyd Malpas Brook

Tachwedd 2023



## Fformatau hygyrch

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Cysylltwch â ni os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall. Gallwch ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa:

01633 838516

[gwentenquiries@llaiscymru.org](mailto:gwentenquiries@llaiscymru.org)

Llais Rhanbarth Gwent,

Tŷ Rhaglan,

Clôs William Brown

Cwmbrân

NP44 3AB

[www.llaiswales.org](http://www.llaiswales.org)

[www.llaiscymru.org](http://www.llaiscymru.org)



## Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| Cefndir  | 4  |
| Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym                                 | 5  |
| Uchafbwyntiau  | 7  |
| Diolchiadau  | 7  |
| Atodiad 1 – Canlyniadau'r Arolwg<br>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 8  |
| Atodiad 2 – Aseiad o'r Effaith ar<br>Gydraddoldeb              | 12 |



## Cefndir

Mae Llais yn sefydliad statudol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llawer mwy o lais i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol.

Fel rhan o'n cynllun gwaith lleol, mae Llais Rhanbarth Gwent wedi ymrwymo i ymgysylltu â phobl ar yr adeg y maent yn derbyn gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, aethom i Ganolfan Iechyd Malpas Brook, Casnewydd, i siarad â phobl am eu profiad o gael mynediad at ofal.

Er mwyn gwneud hyn, fe wnaethom gysylltu â Rheolwr y Practis bythefnos cyn ein hymweliad, i roi gwybod am ein bwriad i fynychu'r practis i ymgysylltu â phobl wrth iddynt adael, trwy gwblhau ein harolwg.

Cyn ein hymweliad, anfonwyd poster i hysbysebu ein harolwg, ynghyd â pheccynnau arolwg i'r practis. Gwnaethom ofyn i Reolwr y Practis arddangos y poster yn y practis, er mwyn galluogi pobl i gwblhau'r arolygon cyn i ni fynychu.

Aethom i Ganolfan Iechyd Malpas Brook ar y dyddiadau canlynol:

|                       |               |
|-----------------------|---------------|
| Dydd Iau 12 Hydref    | 10:00 – 13:00 |
| Dydd Gwener 13 Hydref | 10:00 – 13:00 |

Mae'r crynodeb hwn yn adrodd yr hyn a ddywedodd pobl wrthym am eu profiad o gael mynediad at Ganolfan Iechyd Malpas Brook.



***D.S Safodd y gwirfoddolwyr y tu allan i'r practis i sicrhau nad oedd unrhyw darfu ar y gwasanaeth. Mewn achosion o dywydd garw, fe wnaeth y Rheolwyr Practis wahodd ein gwirfoddolwyr i sefyll y tu mewn i'r practis, mewn man addas.***



## Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym

Mae'n bwysig bod pobl yn gallu cael mynediad at eu practis MT, pan fo angen. Felly, cynlluniwyd ein harolwg i ofyn i bobl am eu profiad o gael mynediad at eu practis, sut y gallant wneud hynny, ac a yw'r gwasanaeth yn gweddu i'w hanghenion.

Gwnaethom ofyn amrywiaeth o gwestiynau, o ba mor hawdd oedd hi i bobl wneud apwyntiadau, a pha sgôr y byddent yn ei roi i amseroedd agor y feddygfa, yr ardal aros, a staff y dderbynfa.

Cymerodd 18 o bobl i gyd yr amser i ddweud wrthym am eu profiad o gael mynediad at ofal yng Nghanolfan Iechyd Malpas Brook.

Roedd pobl yn ei chael yn *"iawn"* i wneud apwyntiad yng Nghanolfan Iechyd Malpas Brook. Er, roedd rhai yn ei chael hi'n anodd. Hefyd, roedd y mwyafrif o bobl yn ei chael yn "hawdd" i ofyn am bresgripsiwn rheolaidd yn

Pan ofynnwyd *"a hoffech chi allu gwneud apwyntiad gan ddefnyddio dull gwahanol?"* dywedodd rhai pobl wrthym y byddent yn hoffi defnyddio *"ap"*, a dywedodd un person yr hoffai rif ffôn pwrpasol, fel nad oes amser aros i bobl wneud apwyntiadau.

Gofynnwyd i bobl a oeddent yn defnyddio Fy Iechyd Ar-lein, ac roedd y mwyafrif o bobl naill ai wedi clywed amdano, ond heb ei ddefnyddio, neu'n ansicr a oedd Canolfan Iechyd Malpas Brook yn ei gynnig. Dim ond dau berson oedd yn defnyddio Fy Iechyd Ar-lein, naill ai i wneud apwyntiad neu i archebu presgripsiwn.

Dywedodd dau berson wrthym nad oeddent yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Er bod pawb yn fodlon ar y cyfathrebu a gawsant gan y practis, fodd bynnag, dywedodd un person mai'n anaml iawn y maent yn clywed gan y practis ac nad ydynt yn cael *" unrhyw apwyntiadau dilynol."*

Gan amlaf, roedd yn rhaid i bobl aros rhwng 1-3 wythnos am apwyntiad arferol gyda meddyg. Arhosodd un person lai nag wythnos, a bu dau berson yn aros llai na 48 awr. Byddai'n well gan bobl dderbyn y cynharaf posib wrth drefnu apwyntiad arferol, yn hytrach na dewis meddyg i'w weld er cysondeb.

Roedd pobl yn ei chael hi'n *"iawn"* i drefnu apwyntiad brys yng Nghanolfan Iechyd Malpas Brook, er bod rhai pobl yn ei chael hi'n

anodd. Dywedodd y rhai a oedd angen gofyn am ymweliad cartref wrthym eu bod yn ei chael yn anodd gwneud hynny.

Gwnaethom ofyn i bobl ddweud wrthym a oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o breifatrwydd wrth ddesg y dderbynfa:

|                      |   |
|----------------------|---|
| Oes                  | 6 |
| Gallai fod yn well   | 4 |
| Na, nid yw'n breifat | 7 |

Yn gadarnhaol, nid oedd unrhyw un yn cael problem o gwbl o ran cyrraedd yr adeilad a chael mynediad iddo. Er, gwnaeth un person sylw bod parcio'n broblem. Cafwyd ymatebion cadarnhaol ar y cyfan gan bobl i amseroedd agor y feddygfa, yr ardal aros, a staff y dderbynfa.

Rhoddodd pobl sylwadau pellach am eu profiad o gael mynediad at Ganolfan Iechyd Malpas Brook:

*“Mae niferoedd y cleifion yn amlwg yn effeithio'n fawr ar berfformiad cyffredinol meddygfeydd ledled Cymru.”*

*“Gall staff y dderbynfa fod yn anghwrtais ar adegau.”*

*“Wrth i mi wneud sylw am fethu â chael ateb ar ffôn y feddygfa, roedd staff y dderbynfa i weld eu bod yn teimlo bod hyn yn ddoniol. Pan lwyddais i drefnu apwyntiad brys yn ddiweddar, wedi gweld tri meddyg locwm gwahanol bob tro, bu'n rhaid i mi esbonio'r un mater eto. Oni fyddai'n well cael mwy o feddygon parhaol yn eu swyddi? Pan yn eu gweld wyneb yn wyneb, mae'r meddygon i gyd wedi bod yn gynorthwyl ac wedi ceisio deall y problemau.”*

*“I fi a fy ngwraig, mae'r feddygfa hon wedi bod yn dda iawn i ni bob tro pan oedd angen cymorth arnom.”*

*“Mae'r derbynnyddion yn barod iawn i helpu yn fy achos i, ac yn mynd y filltir ychwanegol, er eu bod weithiau mewn sefyllfaedd sydd bron yn amhosib.”*

*“Rwy'n cael y newid parhaus mewn staff yn anodd. Unwaith y byddwch chi'n dod i adnabod rhywun, maen nhw'n diflannu.”*



## Uchafbwyntiau

- Hoffem dynnu sylw at yr atborth cadarnhaol a roddwyd drwy gydol y crynodeb hwn, a byddem yn annog rhannu'r atborth hwn â holl staff Canolfan Iechyd Malpas Brook.
- Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith nad oedd dau berson yn y practis hwn yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith (Tsieceg a Chymraeg)



## Diolchiadau

Hoffai Llais Rhanbarth Gwent ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am gael mynediad at eu practis MT. Rydym yn diolch hefyd i'n gwirfoddolwyr, a gynhaliodd arolygon gyda chleifion.

Rydym yn gobeithio y bydd yr atborth y mae pobl wedi cymryd yr amser i'w rannu, yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd, i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda ac yn eu galluogi i weithredu lle mae angen iddynt wneud, cyn gynted ag y gallant, i wella pethau.

## Atodiad 6 – Canlyniadau Arolwg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Nifer y bobl a atebodd y cwestiynau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

| Beth yw eich dewis iaith? |       |
|---------------------------|-------|
| Saesneg                   | Arall |
| 12                        | 2     |

| Gyda pha ryw ydych chi'n uniaethu? |             |          |       |                                 |
|------------------------------------|-------------|----------|-------|---------------------------------|
| Dyn/bachgen                        | Menyw/merch | Anneuaid | Arall | Mae'n well gen i beidio â dweud |
| 6                                  | 8           | 1        |       |                                 |

| Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson traws? |         |                                 |
|--|---------|---------------------------------|
| Ydw  | Nac ydw | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|  | 13      |                                 |

| Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol? |           |       |                                 |
|------------------------------------|-----------|-------|---------------------------------|
| Anrhywiol                          | Deurywiol | Hoyw  | Lesbiaidd                       |
| 1                                  |           |       |                                 |
| Heterorywiol/Syth                  | Panrywiol | Arall | Mae'n well gen i beidio â dweud |
| 10                                 |           |       | 1                               |



### Mis a Blwyddyn Geni

| Ion<br>1940-45   | Chwef<br>1975-80 | Maw<br>1960-65 | Ebr<br>1935-55    | Mai<br>1945-50 | Meh  |
|------------------|------------------|----------------|-------------------|----------------|------|
| 1                | 1                | 1              | 2                 | 1              |      |
| Gorff<br>1955-60 | Awst<br>1945-00  | Medi           | Hydref<br>1950-55 | Tach           | Rhag |
| 1                | 2                |                | 1                 |                |      |

### Beth yw eich ethnigrwydd?

#### Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

| Bangladeshaid | Tsieineaid | Indiaidd | Pacistanaid | Arall |
|---------------|------------|----------|-------------|-------|
|               |            |          |             |       |

#### Du neu Ddu Prydeinig

| Caribiaidd | Affricanaidd | Arall |
|------------|--------------|-------|
|            |              |       |

### Cymysg

| Asiaidd a Gwyn | Du Affricanaidd<br>a Gwyn | Du Caribiaidd a<br>Gwyn | Arall |
|----------------|---------------------------|-------------------------|-------|
|                |                           |                         |       |

## Gwyn

|  |   |           |       |
|--|---|-----------|-------|
| Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig<br>o Ogledd Iwerddon/Prydeinig | Sipsiwn<br>neu<br>Deithiwr<br>Gwyddelig | Gwyddelig | Arall |
| 13   |   |           |       |

## Grŵp Ethnig Arall

|                            |                                    |       |
|----------------------------|------------------------------------|-------|
| Arabaid<br>Unrhyw un arall | Mae'n well gen i<br>beidio â dweud | Arall |
|                            |                                    |       |

## Beth yw eich crefydd neu gred?

|           |              |             |                                       |            |
|-----------|--------------|-------------|---------------------------------------|------------|
| Bwdhaeth  | Cristnogaeth | Hindŵaeth   | Islam                                 | Iddewiaeth |
|           | 9            |             |                                       |            |
| Sikhiaeth | Anffyddiaeth | Dim crefydd | Mae'n well<br>gen i beidio<br>â dweud | Arall      |
|           |              | 4           | 1                                     |            |

## Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd?

|     |         |                                    |
|-----|---------|------------------------------------|
| Ydw | Nac ydw | Mae'n well gen i<br>beidio â dweud |
| 2   | 10      |                                    |

**Ydych chi'n gofalu am, neu'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i aelod o'r teulu, ffrind, neu gymydog oherwydd anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl, neu broblemau sy'n gysylltiedig ag oedran?**

| Ydw | Nac ydw | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|-----|---------|---------------------------------|
| 3   | 10      | 1                               |

**Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu a ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

| Ydw | Nac ydw | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|-----|---------|---------------------------------|
| 1   | 13      |                                 |

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich statws ariannol orau?**

|   |   |
|---|---|
| Mae gennyf fwy na digon ar gyfer angenrheidiau, a llawer iawn o incwm gwario, y gallaf ei gynilo neu ei wario ar bethau ychwanegol neu hamdden              |   |
| Mae gennyf fwy na digon ar gyfer angenrheidiau sylfaenol, a rhywfaint bach o incwm gwario, y gallaf ei gynilo neu ei wario ar bethau ychwanegol neu hamdden | 3 |
| Mae gen i ddim ond digon ar gyfer angenrheidiau a fawr ddim arall   | 6 |
| Nid oes gennyf ddigon ar gyfer angenrheidiau ac weithiau rwy'n brin o arian   | 2 |
| Nid wyf yn gwybod / mae'n well gen i beidio â dweud   | 1 |

## Atodiad 7

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhewch y tabl canlynol i nodi a fydd y grwpiau canlynol yn cael eu heffeithio'n andwyol, yn gadarnhaol, yn wahaniaethol gan bolisi/gweithgarwch/adroddiad Llais, neu na fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl.

| Effaith                                | Dim | Negyddol | Cadarnhaol | Sylwadau   |
|--|-----|----------|------------|--|
| <b>Nodweddion gwarchoddedig</b>        |     |          |            |  |
| Oedran                                 | X   |          |            |  |
| Anabledd                               | X   |          |            |  |
| Rhyw                                   | X   |          |            |  |
| Hil                                    | X   |          |            |  |
| Crefydd/Creodau                        | X   |          |            |  |
| Cyfeiriadedd rhywiol                   | X   |          |            |  |
| Ailbennu rhywedd                       | X   |          |            |  |
| Priodas a phartneriaeth sifil          | X   |          |            |  |
| Beichiogrwydd a mamolaeth              | X   |          |            |  |
| <b>Nodweddion eraill i'w hystyried</b> |     |          |            |  |
| Iaith Gymraeg                          |     |          | X          | Mae adroddiadau ac arolygon ar gael ac yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog |
| Ieithoedd Eraill                       |     | X        |            | Gellir cyhoeddi adroddiadau ac arolygon mewn iaith ofynnol ar gais       |
| Hawliau Dynol                          | X   |          |            |  |
| Lefel Tlodi                            | X   |          |            |  |
| Personau â dibynyddion                 | X   |          |            |  |
| Preswylfa wledig                       | X   |          |            |  |
| Cymunedau sipsiwn a theithwyr          | X   |          |            |  |

|                            |   |  |  |  |
|----------------------------|---|--|--|--|
| Yn ddigidol agored i niwed | X |  |  |  |
|----------------------------|---|--|--|--|

## Asesiad risg

|   |
|---|
| <p><b>A oes unrhyw risgiau'n deillio o weithredu'r polisi hwn?</b><br/>Amh</p>  |
| <p><b>Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?</b><br/>Amh</p>  |
| <p><b>Iaith Gymraeg</b><br/>Mae'r ddogfen/polisi/adroddiad hwn wedi'i asesu yn unol â'n gofynion Iaith Gymraeg ar gyfer safonau:<br/>37,38<br/>69,70,71<br/>Wrth benderfynu ar effaith, gallwn ddangos tystiolaeth o'r canlynol:<br/>Mae holl ddogfennau cyhoeddus Llais ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae Llais yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus, ac yn eu nodi fel rhai cadarnhaol ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg.</p> <p><b>Canlyniad</b><br/>Effaith gadarnhaol –<br/>Safonau 37, 38 – Mae'r holl ddogfennau cyhoeddus yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br/>Safonau 69-71 – Rydym yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus, ac yn eu nodi fel rhai cadarnhaol ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg.<br/>Effaith negyddol – Dim</p> |